# Canllaw i cyfarfodydd cyffredinol aelodau'r busnes cymdeithasol

IONAWR 2021

Social Business Wales
Busnes Cymdeithasol Cymru

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol | 3 |
| Materion i'w cynnwys mewn CCB | 3 |
| Pleidleisio yn y CCB – Cworwm | 3 |
| Cyfarfodydd Cyffredinol Eithriadol | 3 |
| Hysbysiad o gyfarfodydd cyffredinol | 4 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd cyffredinol | 4 |
| Cadeirio cyfarfodydd | 4 |
| Cofnodion cyfarfodydd cyffredinol a phenderfyniadau aelodau | 5 |
| Canllawiau pellach | 5 |


**Sylwer bod y canllawiau hyn yn benodol ar gyfer busnesau cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru fel cwmnïau cyfyngedig preifat.**


Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd
European Union
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol

Mae Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB, neu AGM yn Saesneg) busnes cymdeithasol yn gyfarfod ymysg ei aelodau a gynhelir ar ôl diwedd blwyddyn ariannol y busnes i bleidleisio a gwneud penderfyniadau ar wahanol faterion, proses y cyfeirir ato hefyd fel pasio penderfyniadau, sef datrys / penderfynu ar rywbeth.

Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gwmnïau preifat (mewn cyferbyniad â chwmnïau cyfyngedig cyhoeddus) gynnal CCBau oni nodir y gofyniad hwn yn eu Herthyglau Cymdeithasu. Fodd bynnag, rydym yn annog sefydliadau i gynnal CCBau gan fod yr arfer da hwn yn rhoi cyfle i gysylltu'n uniongyrchol â'ch aelodau, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr hyn y mae'r busnes cymdeithasol yn ei wneud a'i gynllunio. Rhaid i chi gynnal eich CCB o fewn naw mis i ddiwedd blwyddyn ariannol y busnes.

# Materion i'w cynnwys mewn CCB

Yn gyffredinol, aelodau'r Bwrdd sy'n penderfynu ar y materion (eitemau agenda) i'w cynnwys yn y CCB. Fodd bynnag, gall aelodau sydd ag o leiaf 5% o gyfanswm yr hawliau pleidleisio fynnu bod y busnes yn dosbarthu penderfyniad i bleidleisio arno yn y CCB.

Bydd agenda nodweddiadol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

- derbyn adroddiad y Cadeirydd
- derbyn y cyfrifon
- penodi/ailbenodi Cyfarwyddwyr
- penodi/ailbenodi archwilwyr.

Bydd yr eitemau CCB safonol yn benderfyniadau cyffredin sydd yn gofyn dim mwy na bod mwy na 50% yn pleidleisio drostynt er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo.

Gweler CCB agenda enghreifftiol

# Pleidleisio yn y CCB – Cworwm

Bydd pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol yn digwydd naill drwy godi dwylo neu drwy bleidlais ysgrifenedig, yn ôl cyfarwyddyd erthyglau cymdeithasu'r busnes. Bydd y cworwm sydd ei angen ar gyfer cyfarfod cyffredinol ymysg yr aelodau hefyd yn cael ei nodi yn yr erthyglau cymdeithasu. Cyfrifoldeb Ysgrifennydd y Cwmni yw sicrhau bod cworwm angenrheidiol yr aelodau yn bresennol. Os na cheir cworwm mewn cyfarfod, bydd yr erthyglau cymdeithasu'n amlinellu'r broses y dylid ei dilyn ar gyfer ailgynnull y cyfarfod.

# Cyfarfodydd Cyffredinol Eithriadol

Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol (CCE, neu EGM yn Saesneg) yw unrhyw gyfarfod cyffredinol ymysg aelodau heblaw am y CCB. Defnyddir CCEau yn aml lle mae angen cymeradwyaeth aelodau cyn y CCB nesaf i gymeradwyo, er enghraifft:

- newid i amcanion y busnes
- unrhyw newid arall i erthyglau cymdeithasu'r busnes
- newid i enw'r busnes
- diswyddo Cyfarwyddwr cyn diwedd ei dymor
- i ddiddymu'r busnes.

Er mwyn lleihau'r angen am gyfarfodydd cyffredinol lluosog, bydd cwmnïau'n ceisio cynnwys yr holl benderfyniadau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn i ddod yn eu CCBau.

Fel arfer, mae angen pasio materion a ddygir i CCE fel "penderfyniadau arbennig" ac mae angen cymeradwyaeth 75% o'r rhai sy'n pleidleisio arnynt. Fodd bynnag, mae erthyglau cymdeithasu llawer o fusnesau yn nodi bod rhai newidiadau i'w pasio yn gofyn am gymeradwyaeth unfrydol yr aelodau (100% o'r rhai sy'n pleidleisio).

Gweler Penderfyniad arbennig enghraifft

# Hysbysiad o gyfarfodydd cyffredinol

Ar gyfer busnesau preifat mae angen o leiaf 14 diwrnod o rybudd ar gyfer unrhyw gyfarfod cyffredinol ymysg yr aelodau oni bai bod yr erthyglau cymdeithasu yn nodi bod angen cyfnod hwy. Gellir lleihau hyn os bydd 90% o'r aelodau yn cydsynio i'r byr rybudd. Dylai'r hysbysiad gynnwys y manylion canlynol:

- dyddiad ac amser y cyfarfod
- lleoliad y cyfarfod
- natur gyffredinol y materion i'w trafod yn y cyfarfod

Gweler Rhybudd CCB enghraifft

# Presenoldeb mewn cyfarfodydd cyffredinol

Gall pob aelod fynychu a phleidleisio'n bersonol mewn cyfarfodydd cyffredinol. Gall aelodau nad ydynt yn gallu bod yn bresennol benodi dirprwy i fynychu'r cyfarfod cyffredinol a phleidleisio drostynt. Gellir naill ai gyfarwyddo'r dirprwy ar sut i bleidleisio ar bob penderfyniad, gan gynnwys ymatal, neu ganiatáu iddo bleidleisio fel y dymuna. Er mwyn gwneud hyn, mae angen llenwi ffurflen pleidleisio drwy ddirprwy. Mae'n ofyniad cyfreithiol i gynnig pleidlais drwy ddirprwy ar gyfer pob cwmni preifat.

Gellir cynnal cyfarfod cyffredinol yn electronig neu gymysgedd o gyfarfod wyneb yn wyneb ac electronig, ar yr amod y gall pawb sy'n bresennol glywed a chymryd rhan lawn yn y cyfarfod.

Gweler Ffurflen ddirprwy enghraifft

# Cadeirio cyfarfodydd

Fel arfer, Cadeirydd y cyfarfodydd cyffredinol fydd unrhyw berson a benodir yn Gadeirydd Bwrdd yr aelodau ac mae hyn yn aml wedi'i nodi yn yr erthyglau cymdeithasu. Mae'r Cadeirydd yn rheoli'r cyfarfod ac yn penderfynu a yw penderfyniad wedi'i basio neu heb ei basio neu wedi'i basio gyda'r mwyafrif angenrheidiol. Er y gall Cadeirydd fod â hawl i bleidlais fwrw mewn cyfarfodydd bwrdd, dylid nodi na chaniateir hyn yn gyfreithiol mewn cyfarfodydd cyffredinol.

# Cofnodion cyfarfodydd cyffredinol a phenderfyniadau aelodau

Rhaid i bob cwmni gadw cofnodion o bob cyfarfod cyffredinol a phenderfyniadau'r aelodau. Rhaid cadw'r cofnodion am o leiaf ddeng mlynedd o ddyddiad y penderfyniad, y cyfarfod neu'r penderfyniad (fel y bo'n briodol).

**Eisiau trafod eich CCB neu unrhyw CCEau ymhellach?**

Cysylltwch â sbwenquiries@wales.coop
neu eich Cynghorydd Busnes penodedig.

# Canllawiau pellach

Canllaw cymorth y trydydd sector: Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol effeithiol

**Want to discuss topics in this guide further?**

Cysylltwch â sbwenquiries@wales.coop
neu eich Cynghorydd Busnes penodedig.

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i cyflwynir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ac mae'n rhan o deulu Busnes Cymru.


**Canolfan Cydweithredol Cymru**
**Y Borth**
**13 Ffordd Beddau**
**Caerffili**
**CF83 2AX**



Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.


Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg. Mae ffurfiau eraill, megis mewn print bras neu braille, ar gael ar gais.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Saesneg neu Gymraeg a'n nod yw darparu safon gyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith.

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund